Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanbrynmair
# Llanbrynmair
# Powys
# SY19 7AB

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llanbrynmair

Lleolir Ysgol Gynradd Llanbrynmair ym mhentref Llanbrynmair, yn awdurdod lleol Powys. Mae 60 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Addysgir y disgyblion mewn tri dosbarth oed cymysg.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 7% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 18%. Daw tua hanner o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir Cymraeg fel iaith yr aelwyd ac mae pob disgybl o gefndir gwyn Prydeinig. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol wedi adnabod bod gan tua 9% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na'r ganran genedlaethol, sef 21%.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Ionawr, 2015. Ers 2014, daeth yr ysgol yn rhan o ffederasiwn ffurfiol gydag Ysgol Gynradd Carno ac Ysgol Gynradd Glantwymyn o dan un pennaeth gweithredol ac un corff llywodraethol. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn 2016.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r arweinyddiaeth flaengar a chydweithrediad llawn y staff yn gwneud yn siŵr bod ethos o welliant parhaus yn rhan annatod o wead yr ysgol. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel iawn i sicrhau lles a chynnydd pob disgybl a'u datblygu'n ddysgwyr annibynnol o oed ifanc iawn. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau ysgogol a diddorol i ddisgyblion, sy'n eu datblygu'n unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol a gwybodus. Mae hyn yn arwain yn llwyddiannus iawn at wireddu safonau a darpariaeth ragorol ym mhob pob maes. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus iawn i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog a heriol i'r disgyblion ac i sefydlu amgylchedd ddysgu ysgogol iawn lle mae parch amlwg yn bodoli rhwng y disgyblion a'r athrawon. Mae hyn yn cyfrannu at greu amgylchedd ddysgu iach, lle mae disgyblion yn barod iawn i weithio'n galed a chreu gwaith o safon uchel yn gyson. Un o gryfderau eithriadol yr ysgol yw'r ffordd feistrolgar y mae'r athrawon yn gweu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn naturiol drwy'r cwricwlwm cyfan, yn enwedig mewn gweithgareddau creadigol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod gweithdrefnau olrhain cynnydd yn hylaw a bod athrawon yn gwneud defnydd effeithlon ohonynt i ymestyn y dysgu

A2 Mynd i'r afael â'r mater iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos i'w lledaenu ar wefan Estyn ar ei gwaith mewn perthynas â cynllunio ar gyfer gwelliant ar draws y ffederasiwn a'r dull y mae'r ffederasiwn yn cyflwyno cwricwlwm diddorol i'w disgyblion

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau llawer o ddisgyblion yn agos at, neu yn uwch na'r, lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys disgyblion ag anghenion ychwanegol, yn cyflawni'n dda o'u mannau cychwyn. Mae llawer yn gwneud cynnydd cryf iawn mewn gwersi ac yn cynhyrchu gwaith o ansawdd uchel yn gyson.

Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn gwneud cynnydd arbennig o gryf yn eu medrau llafar o ystyried eu cefndir ieithyddol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae bron pob un yn gwrando'n ofalus ar eraill ac yn trafod eu gwaith yn aeddfed, er enghraifft wrth drafod y medrau darllen sydd eu hangen arnynt wrth ddarllen ar goedd. Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o ffoneg ac maent yn defnyddio'u gwybodaeth yn fedrus i ddarllen testunau anghyfarwydd yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau ysgrifennu yn greadigol ac yn naturiol mewn gwahanol gyd-destunau. Maent, er enghraifft, wedi defnyddio'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i hwyluso'r broses o greu taflen wybodaeth am y corff.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn siarad yn hyderus, yn fyrlymus ac yn gwbl naturiol gyda mesur arbennig o gywirdeb yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae safon darllen bron pob disgybl yn gyson dda. Mae'r disgyblion o allu gwahanol yn darllen testunau heriol o fewn y gwersi yn gywir. Mae'r rhan fwyaf yn amrywio eu goslef ac yn cyfrannu'n aeddfed i drafodaethau am yr hyn maent wedi ei ddarllen yn y ddwy iaith. Mae bron pob disgybl yn defnyddio eu huwch fedrau darllen mewn amrywiol ffyrdd yn hynod effeithiol. Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn darllen gwahanol ffynonellau hanesyddol yn y ddwy iaith ac yn defnyddio'r wybodaeth yn greadigol i ysgrifennu cerdyn post adref o safbwynt milwr yn y ffosydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn y Gymraeg. Mae bron pob disgybl yn ysgrifennu gwaith estynedig o safon uchel mewn amrywiaeth o ffyrdd gyda mesur da iawn o gywirdeb. Enghraifft nodedig o hyn yw'r sgriptiau mae disgyblion wedi'u hysgrifennu yn seiliedig ar daith y Cymry ar fwrdd y Mimosa. Defnyddia bron pob disgybl eu medrau ysgrifenedig Cymraeg yn effeithiol iawn ar draws y cwricwlwm mewn nifer helaeth o bynciau gan lwyddo i ysgrifennu'n greadigol ac yn fedrus wrth greu cerddi ar gyfer y prosiect 'Elfennau', er enghraifft.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn iawn. Yn y dosbarth derbyn, mae bron pob disgybl yn darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 10 o leiaf wrth gyfri siapiau. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae gan lawer afael sicr iawn ar ffeithiau rhif i 100 ac maent yn cyfrifo'n hynod feistrolgar yn y pen wrth iddynt ddefnyddio gwahanol ffyrdd o gyfrifo i gyrraedd cyfanswm o 24, er enghraifft. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae dealltwriaeth disgyblion o nodweddion siapau 2D a 3D yn gadarn iawn ac mae llawer yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir wrth drafod eu gwaith ac wrth ei chymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o nodweddion mathemategol, gan gynnwys gweithdrefnau adio, tynnu, lluosi a rhannu

yn gadarn iawn. Mae disgyblion yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth yn fedrus ar wahanol ffurf i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Enghraifft nodedig o hyn yw'r ffordd y mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cyfrifo cost trefnu gwyliau ar gyfer faciwî a'i theulu o fewn cyllideb benodol. Mae'r ychydig o ddisgyblion mwy abl yn medru defnyddio'u dealltwriaeth fathemategol yn gelfydd iawn wrth greu fformiwla i gyfrifo nifer y croeslinau mewn polygonau. Mae'r gwaith hwn yn eithriadol.

Mae medrau TGCh y disgyblion ym mhob dosbarth yn un o gryfderau'r ysgol. O oed ifanc, mae disgyblion yn defnyddio gwahanol apiau'n fwriadus, er enghraifft wrth greu llyfr gwybodaeth ar dylluanod. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn rhaglenni a rheoli tegan i fynd ar daith i'r sêr ac o blaned i blaned ac yna ysgrifennu'r cyfarwyddiadau mewn trefn. Mae bron pob disgybl yn cydweithio'n aeddfed i greu gwaith creadigol o safon uchel iawn ar ffurf animeiddiad wrth gofnodi taith y Mimosa i Batagonia, gan gyfuno medrau ymchwiliol, sgriptio a darllen mynegiannol yn grefftus iawn.

Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau technolegol a chreadigol yn feistrolgar wrth ymchwilio, cynllunio, creu a pherfformio mewn animeiddiadau a ffilmiau. Mae enghreifftiau ardderchog o hyn yn cynnwys creu ffilmiau ar gylch bywyd planhigyn, a pherfformio RAP a grëwyd ar y cyd â pherfformiwr enwog. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ymchwilio i ffeithiau am fwyd yn ystod y rhyfel ac yn defnyddio'r wybodaeth i greu bas data dosbarth ar wahanol gynhwysion. Maent yn croesholi'r data yn fwriadus ac yn gosod trefn ar y wybodaeth yn ofalus. Mae medrau codio disgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda iawn wrth iddynt ddyfalbarhau a deall pwysigrwydd bod yn fanwl gywir.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae gan bron pob un disgybl agwedd eithriadol o gadarnhaol tuag at ddysgu. Mae'r agweddau hyn wedi'u sefydlu'n gadarn ar draws yr ysgol. Mae bron pob un yn awyddus iawn i ddysgu ac maent yn dyfalbarhau yn aeddfed ar eu tasgau ac yn ymdrechu'n llwyr i'w cwblhau. Mae awyrgylch weithgar yn amlwg ym mhob dosbarth, ac mae gan ran fwyaf y disgyblion lefel uchel o berchnogaeth ar eu gweithgareddau dysgu, sy'n eu hysgogi i ddatblygu'n ddysgwyr gwybodus a chydwybodol.

Mae bron pob un disgybl yn hynod gwrtais ac yn arddangos lefel uchel o barch tuag at ei gilydd a thuag at oedolion. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn ardderchog mewn gwersi ac ar adegau eraill. Maent yn croesawu ymwelwyr mewn ffordd eithriadol o aeddfed ac maent yn fyrlymus wrth drafod agweddau o fywyd yr ysgol gyda nhw. Mae bron pob un disgybl yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn falch i fod yn rhan o'i chymuned. Maent yn teimlo'n gwbl ddiogel yno ac yn llwyr fwynhau eu profiadau dysgu.

Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw cyfraniad a llais y disgybl drwy weithgarwch diwyd y cyngor ysgol, yr eco gyngor a'r llysgenhadon chwaraeon. Mae bron pob un disgybl yn frwdfrydig tu hwnt am ymgymryd â swyddi cyfrifoldeb ac yn ymfalchïo wrth rannu gwybodaeth am yr hyn maent yn ei wneud ag eraill mewn cyfarfodydd llywodraethol a gwasanaethau ysgol gyfan. Er enghraifft, maent yn arwain ar ledaenu gwybodaeth am hawliau plant i'w cyd-ddisgyblion yn effeithiol iawn ac yn ymateb yn rhagweithiol i syniadau eraill. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr

ysgol a lles eu cyfoedion. Mae enghraifft eithriadol o dda yn cynnwys y ffordd y mae'r disgyblion yn hunanwerthuso effeithiolrwydd eu gweithgarwch ar draws y flwyddyn ac yn gweithredu ar y canfyddiadau yn briodol er mwyn gwella. Drwy'r gweithdrefnau hyn, maent yn cyfrannu'n sylweddol at blethu pedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru yn hollol naturiol i weithgareddau'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac yn awgrymu yn aeddfed ffyrdd y gall yr arferion hyn gael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd. Maent yn manteisio yn rheolaidd ar gyfleoedd cynhwysfawr i gadw'n heini drwy ymweld â'r ganolfan hamdden a thrwy redeg milltir y dydd.

Mae cyfartaledd presenoldeb disgyblion yn gyson uchel iawn ac yn cymharu'n ffafriol iawn ag ysgolion tebyg.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Un o brif gryfderau'r ysgol yw'r amgylchedd ddysgu ddiogel ac ysgogol iawn sy'n bodoli o fewn pob dosbarth, lle mae'r parch rhwng y disgyblion a'r athrawon yn hollol amlwg. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at greu amgylchedd lle mae disgyblion yn barod iawn i weithio'n galed, i wneud eu gorau ac i deimlo'n rhydd i fentro heb fod ag ofn gwneud camgymeriad. O ganlyniad, mae disgyblion yn barod iawn i ddysgu trwy eu camgymeriadau ac i ymateb yn bwrpasol ar lafar ac yn ysgrifenedig i adborth defnyddiol yr athrawon.

Mae'r athrawon yn rhannu nod y wers gyda'r disgyblion yn gyson ac yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt drafod yr hyn fydd yn help iddynt lwyddo. Maent yn esbonio'r tasgau'n glir ac yn holi'n gelfydd er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn deall. Tra bod y disgyblion ar waith, mae athrawon yn cylchdroi o amgylch y dosbarth yn effeithiol, gan gynnig adborth amserol i unigolion ar sut i wella eu gwaith ymhellach. O ganlyniad, mae disgyblion yn cynhyrchu darnau lluosog o waith sy'n gyson o safon uchel iawn.

Mae athrawon yn cyflwyno gwersi diddorol i ddisgyblion, gan ddisgwyl sylw ac ymateb llwyr gan bob un. Mae rhediad y gwersi ym mron pob dosbarth yn rhwydd a phwrpasol gyda phob athro yn arddangos disgwyliadau uchel o ran ymddygiad a chyflwyniad. O ganlyniad, mae safon cyflwyniad gwaith y disgyblion ar draws yr ysgol yn uchel iawn gyda bron pob un yn dangos balchder mawr yn eu gwaith.

Mae gan yr ysgol gwricwlwm hynod effeithiol a chreadigol sy'n datblygu medrau disgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu yn systematig ac adeiladol. Mae'r gweithgareddau cyffrous a gwreiddiol hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymroi'n llwyr i'w gweithgareddau ac yn gwneud cynnydd ymhell uwchlaw'r disgwyliadau yn eu holl fedrau. Cyfoethogir y cwricwlwm yn effeithiol iawn drwy gynnal ymweliadau i'r disgyblion i fannau diddorol, a thrwy ddefnyddio arbenigedd ymwelwyr i'r ysgol yn llwyddiannus, er enghraifft cwmni theatr i gyflwyno perfformiad am fywyd person yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Nodwedd gref iawn o waith yr ysgol yw'r ffordd feistrolgar y mae'r athrawon yn gweu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn drefnus drwy'r cwricwlwm, yn enwedig drwy weithgareddau creadigol fel y prosiect 'Elfennau'. Yn ystod y prosiect hwn, mae'r disgyblion wedi derbyn cyfleoedd arbennig o ddefnyddiol i greu dawns a darnau o

gelf, ac i gyfansoddi cerddi yn seiliedig ar y thema. Maent wedi cyhoeddi'r cerddi a'r celf mewn llyfr ac wedi defnyddio'r dawnsiau yn feistrolgar fel rhan o weithgareddau lansiad y llyfr. Mae hyn yn meithrin parch a balchder ymysg y disgyblion tuag at eu gwaith yn hynod effeithiol.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu llawer o'u medrau drwy weithgareddau entrepreneuriaeth. Mae'r gwaith hwn yn galluogi disgyblion i ddefnyddio'u medrau creadigol yn fwriadus i greu cynnyrch i'w werthu, yn ogystal â'u medrau rhifedd i gyfrifo cost ac elw.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau gwyddonol disgyblion yn effeithiol iawn. Ceir cyfleoedd rheolaidd iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o elfennau gwyddonol, er enghraifft wrth resymu os oes rhagfarn yn nhystiolaeth gwahanol wyddonwyr.

Mae'r cyfleoedd cyfoethog i hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn rhan hollol greiddiol a naturiol o holl waith yr ysgol. Mae'r athrawon yn modelu iaith yn ardderchog ac yn trochi'r disgyblion gyda Chymraeg raenus, gyda lliw acen gyfoethog sir Drefaldwyn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gywirdeb a safon iaith y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth hon yn cryfhau medrau llafar pob disgybl yn llwyddiannus iawn, yn arbennig y rhai sydd â'r Gymraeg yn newydd iddynt. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn hollol naturiol drwy holl weithgareddau'r cwricwlwm, sy'n cynnwys cyfleoedd niferus i astudio gwaith artistiaid, cerddorion ac awduron Cymru yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn rhagweithiol wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru drwy gynllunio gweithgareddau sy'n datblygu disgyblion fel unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol a gwybodus. Mae disgyblion, yn eu tro, yn trafod sut mae eu gweithgareddau yn datblygu'r dibenion hyn mewn modd hynod aeddfed.

Mae gan staff ymwybyddiaeth effeithiol iawn o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Maent yn cynllunio cydbwysedd effeithiol o weithgareddau a weithredir o dan arweiniad staff a chyfleoedd eraill i ddisgyblion weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu. Enghraifft effeithiol iawn o hyn yw'r ffordd y mae staff yn annog disgyblion i ddewis y ffordd y maent am greu model o estronwr yn ystod y gweithgaredd 'drosodd i chi'. Mae hyn yn annog eu hannibyniaeth a'u gallu i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu yn eithriadol o dda.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned deuluol, groesawgar a Chymreig lle mae bron pob disgybl yn falch o fod yn rhan ohoni. Mae'r berthynas waith hynod effeithiol a chynhyrchiol sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r athrawon yn un o nodweddion arbennig yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr agweddau cadarnhaol iawn sydd gan y disgyblion at eu gwaith ac at naws gynhwysol yr ysgol.

Mae'r athrawon yn adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar ac yn cynnig darpariaeth bwrpasol iddynt. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun datblygu unigol sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol a thargedau addas a mesuradwy. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu'n effeithiol gyda'r disgyblion, yr athrawon a'r rhieni. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cyflawni'n dda yn eu medrau llythrennedd a rhifedd ac yn gwneud cynnydd cyson dros amser.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau olrhain cynnydd priodol sy'n fodd i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i athrawon adnabod anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion, ac i'w cynorthwyo i ddarparu'n briodol ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn gwneud defnydd digon craff o'r data sy'n deillio o'r gweithdrefnau hyn. Maent, yn hytrach, yn dibynnu gormod ar eu mympwy i'w cynorthwyo i osod targedau a theilwra gweithgareddau ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd arbennig o lwyddiannus i'r disgyblion ddatblygu eu medrau creadigol. Mae ysgolion y ffederasiwn wedi cydweithio'n effeithiol er mwyn datblygu medrau celf a cherddoriaeth disgyblion yn dda gan greu cyfanwaith creadigol, fel y prosiect 'Elfennau', er enghraifft. Mae hyn yn cyfrannu'n helaeth at feithrin hunanhyder a gallu'r disgyblion i berfformio yn yr ysgol, y gymuned leol ac yn genedlaethol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion gymryd rhan mewn nifer helaeth o gystadlaethau eisteddfodol, cystadlaethau chwaraeon, a chanu mewn cyngerdd lleol fel côr unedig o'r ffederasiwn yng Nghanolfan y Celfyddydau ym Machynlleth, er enghraifft.

Mae'r ddarpariaeth i sicrhau bod y disgyblion yn datblygu i fod yn falch o'u hiaith, eu diwylliant a'u hetifeddiaeth yn gadarn ac effeithiol. O ganlyniad, Cymraeg yw'r iaith mae'r disgyblion fel arfer yn dewis ei defnyddio o fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae'r ystod eang o ymwelwyr ac ymweliadau addysgol cyfoethog a drefnir yn cyfrannu'n effeithiol iawn at ddealltwriaeth y disgyblion o'u diwylliant a'r gymuned leol.

Mae lles pob disgybl yn cael lle blaenllaw yn y ddarpariaeth. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae cogyddes yr ysgol yn cynorthwyo'n hynod effeithiol at hyn. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau yn cyfrannu'n llwyddiannus at sicrhau dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd byw'n iach a chadw'n heini. Mae'r disgyblion yn gwybod ei bod yn bwysig gwneud penderfyniadau cywir o ran y ffordd iach o fyw a hefyd i fod yn ddiogel ar lein.

Mae llais y disgybl yn ganolog i holl weithgareddau lles ac allgyrsiol yr ysgol. Mae aelodau'r cynghorau a'r pwyllgorau plant yn cael cyfleoedd defnyddiol i gwrdd yn aml er mwyn gweithredu ar dargedau penodol. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion mewn tasgau creadigol i greu gwrthrychau i'w gwerthu yn ffeiriau'r ysgol. Trwy'r gweithgareddau hyn, caiff yr holl ddisgyblion y cyfle i gynllunio, trefnu a gwerthuso amrywiaeth ddiddorol o wrthrychau a datblygu eu medrau mentergarwch yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu'n fedrus ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Caiff y disgyblion gyfleoedd cyson ac addas i ymateb mewn sesiynau cyd-addoli a gwasanaethau dyddiol, er enghraifft trwy wrando ar ac ymateb i amrywiol storïau crefyddol a moesol. Rhoddir cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion drafod 'hawl y mis' fel rhan o'r ddarpariaeth Hawliau'r Plentyn ac mae athrawon yn sicrhau bod hyn yn treiddio'n effeithiol i'r holl agweddau dysgu perthnasol. Mae enghraifft dda o hyn yn cynnwys rhoi cyfle i ddisgyblion adnabod a dewis hawliau penodol i gyd-fynd â themâu'r dosbarth. Caiff yr holl ddisgyblion gyfleoedd da i werthfawrogi amrywiaeth, goddefgarwch a chydraddoldeb ac i berthnasu hyn i anghenion byd-eang, er enghraifft trwy benderfynu ar weithgareddau codi arian i noddi plentyn yn Gambia.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion. Fodd bynnag, tynnwyd sylw'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr at fater iechyd a diogelwch.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth flaengar y pennaeth, y penaethiaid cynorthwyol a'r llywodraethwyr, law yn llaw â chydweithio cryf y staff, yn golygu bod buddion amlwg i drefniant ffederasiwn ysgolion Carno, Glantwymyn a Llanbrynmair. O ganlyniad, mae ethos o welliant parhaus yn rhan annatod o waith yr ysgolion, sy'n arwain at safonau a darpariaeth sydd o leiaf yn dda a chyda nodweddion amlwg o ragoriaeth ar draws y ffederasiwn cyfan. Trwy strwythurau arwain a rheoli clir a chyfrifoldebau tryloyw i'r staff, mae pawb o fewn y ffederasiwn yn gweithio'n ddiwyd i gyflawni gweledigaeth gytûn. Mae hyn yn seiliedig ar godi safonau a sicrhau darpariaeth addysg o'r radd flaenaf i ddisgyblion yr ysgolion. Mae rhannu arbenigeddau staff, arferion da ac adnoddau, yn nodweddion effeithiol o'r ffederasiwn. Enghreifftiau nodedig o hyn yw'r gwaith y mae'r arweinwyr wedi ei wneud er mwyn cryfhau rôl arwain cydlynwyr pwnc yr ysgolion. Mae'r cydlynwyr bellach yn chwarae rhan greiddiol wrth gyfrannu at hunanwerthuso'r ddarpariaeth ac arwain gwelliannau yn eu meysydd cyfrifoldeb ar draws ysgolion y ffederasiwn. Trwy hyn, mae arweinwyr yn sicrhau bod y cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau yn hynod ddiddorol ac yn cynorthwyo pob disgybl i wneud cynnydd uchel yn gyson.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gynhwysfawr o ansawdd y ddarpariaeth ac am safonau. Trwy ymweld â'r ysgolion yn rheolaidd i graffu ar ansawdd ac wrth dderbyn adroddiadau cynnydd manwl gan y pennaeth, maent yn adnabod cryfderau'r ysgolion a'r meysydd i'w gwella yn drwyadl. Mae'r is-bwyllgor cwricwlwm yn fforwm effeithiol i arfarnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth gan ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn llwyddiannus.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn rhagorol. Mae'r adroddiadau hunanwerthuso yn ddogfennau gonest sy'n amlygu cryfderau a meysydd i'w gwella yn yr ysgolion yn fanwl. Maent yn cynnwys sylwadau treiddgar sy'n deillio o dechnegau cadarn ar gyfer casglu tystiolaeth. O ganlyniad, mae'r weithdrefn hunanwerthuso yn un sy'n creu gwerthusiadau dilys a chredadwy am ansawdd y ddarpariaeth, safonau ac effaith yr arweinyddiaeth.

Trwy ystyriaeth ofalus, sy'n cynnwys mewnbwn gan aelodau'r uwch dîm rheoli a'r staff, mae'r arweinwyr yn defnyddio deilliannau'r weithdrefn hunanwerthuso yn effeithiol iawn i greu blaenoriaethau synhwyrol o fewn cynllun gwella trefnus. Mae nifer y blaenoriaethau yn hylaw ac mae adnoddau cyllidol ac amser staff yn cael eu clustnodi'n synhwyrol er mwyn eu cyflawni'n llwyddiannus. Mae'r modd y mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y blaenoriaethau hyn yn cael eu cwblhau yn rhagorol. Maent yn ymrwymo targedau rheoli perfformiad y staff at gwblhau'r blaenoriaethau yn fedrus gan roi cyfleoedd effeithiol iawn iddynt adnabod beth yw eu cyfraniad nhw i'r broses wella. Mae hyn yn hybu perchnogaeth ac atebolrwydd y staff i fagu syniadau ynglŷn â sut i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau yn effeithiol. Mae 'adroddiadau effaith' y pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn amlygu'n glir y cynnydd a wneir yn erbyn cyflawni'r blaenoriaethau yn effeithiol iawn. Mae hyn yn sicrhau bod arweinwyr a staff yn ymwybodol yn rheolaidd o raddfa'r cynnydd, gan addasu cynlluniau gwella yn ôl yr angen. O ganlyniad, mae hanes llwyddiannus gan yr ysgolion o wella eu darpariaeth a chodi safonau ym mron pob un flaenoriaeth dros nifer o flynyddoedd.

Mae cyllidebau'r ysgolion yn cael eu rheoli yn effeithiol ac mae grantiau penodol, fel y grant datblygu disgyblion, yn bodloni anghenion disgyblion yn briodol, er enghraifft i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r arweinwyr yn rheoli eu hadnoddau, gan gynnwys adnoddau dynol, yn fedrus gan olygu y gallant gyflawni mwy gyda'i gilydd fel ffederasiwn nag y gallent fel ysgolion unigol. Mae'r modd y mae'r ysgolion yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a darparu profiadau eang i ddisgyblion, ac yn cynnal a gwella deilliannau a darpariaeth y Gymraeg yn enghreifftiau diweddar a llwyddiannus o hyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/01/2019